Lefel 4

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

GORFFENNAF 2018

Cynnwys

	Rhif y dudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y cymhwyster	2
Nodau ac amcanion pwnc	3
Cynnwys y pwnc	3
Amcanion asesu	3
Cynllun asesu	4
Deilliannau	4
Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo	5
Gofynion rhesymeg	5
Gofynion gweithredol	6
Atodiad A	7

Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddio** o dan **Amod B7** o'r *Amodau Cydnabod Safonol (Mawrth 2017*[1]: *Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddio.*

[1] http://qualificationswales.org/publications/standard-conditions-of-recognition-march-2017/?lang=cy

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. Datblygwyd y rhain drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu manyleb a deunyddiau asesu ar gyfer cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae'r cymhwyster hwn yn bennaf ar gyfer y rhai sy'n gweithio, neu sy'n chwilio am waith, gyda theuluoedd a phlant dan 8 oed mewn lleoliadau gofal plant rheoleiddiedig a'r rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant rhwng 0 a 19 oed drwy wasanaethau plant y GIG. Dylid cyflawni'r cymhwyster hwn cyn cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Cynlluniwyd y cymhwyster hwn i'w gyflwyno gan amrywiaeth o ddarparwyr dysgu, gan gynnwys darparwyr dysgu seiliedig ar waith, addysg bellach ac addysg uwch, ar gyfer dysgwyr 18 oed a throsodd.

Pan fo'n briodol, dylai'r cymhwyster hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu, llythrennedd, cymhwysedd digidol a rhifedd.

Daw'r meini prawf cymeradwyo yn y ddogfen hon i rym o fis Gorffennaf 2018 a chânt eu hadolygu yn 2022.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant[2] i'w haddysgu ar raglenni dysgu a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Cyfyngir ar yr holl gymwysterau yn y gyfres am gyfnod o bum mlynedd o 1 Medi 2019 er mwyn sicrhau mai dim ond un fersiwn ohonynt sydd ar gael. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu a all ddyfarnu pob cymhwyster. Yn dilyn proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2017 a mis Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi llunio contract â chonsortiwm sy'n cynnwys Sefydliad

[2] http://qualificationswales.org/media/2534/230517-determination-to-restrict-hsc-final-w.pdf

Dinas ac Urddau Llundain a CBAC i ddatblygu a chyflwyno'r holl gymwysterau yn y gyfres ar y cyd.

Dim ond cymhwyster sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon, ynghyd â'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*[3] y bydd Cymwysterau Cymru yn ei gymeradwyo. Wrth ddatblygu'r cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i gyrff dyfarnu ystyried *Fair Access by Design*[4] (cyhoeddiad Saesneg yn unig). Rhaid i'r corff dyfarnu a gomisiynwyd hefyd fodloni'r holl ofynion a nodir yn y *contract consesiwn a ddyfarnwyd* yn ystod camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a chyflwyno'r cymhwyster. Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*, y gofynion yn y ddogfen hon fydd drechaf.

Strwythur y cymhwyster

1. Rhaid i fanyleb Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gynnig dysgwyr ardystiad o gymhwyster o 600 o ran Cyfanswm Amser Cymhwyso (TQT) (60 credyd) a bydd angen ei diffinio yn nhermau Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH).

2. Mae gan y cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gynnwys gorfodol yn unig, fel y nodir yn Atodiad A.

3. Rhaid i'r canlynol ymddangos ar dystysgrifau fel teitl y cymhwyster:

   Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

4. Rhaid i gynllun Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant sicrhau:

   4.1 bod y deilliant a gyflawnir yn adlewyrchu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a ddangoswyd yn yr asesiadau;

   4.2 bod y cymhwyster yn helpu dysgwyr i symud ymlaen i gymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

[3] http://qualifications.wales/cymraeg/ein-gwaith/rheoleiddio-cyrff-dyfarnu/monitro-cyrff-dyfarnu/
[4] http://gov.wales/docs/dcells/publications/150727-fair-access-by-design-en.pdf

Nodau ac amcanion y pwnc

5. Rhaid i Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant alluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o fewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Yn arbennig, dylai dysgwyr allu dangos y canlynol:

   5.1 eu bod yn deall amrywiaeth o gysyniadau, damcaniaethau a thechnegau arwain a rheoli;

   5.2 bod ganddynt ymwybyddiaeth o arddulliau arwain a rheoli pobl eraill a sut y gallai'r rhain ddylanwadu ar eu harddulliau hwy;

   5.3 eu bod yn deall sut i arwain dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn fel rhan o'u hymarfer;

   5.4 eu bod yn gallu gweithio fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol er mwyn llunio barn hyddysg, sy'n cynnwys defnyddio a dehongli data;

   5.5 eu bod yn ymwybodol o sut i arwain, rheoli a gwella gwasanaethau yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Cynnwys y pwnc

6. Rhaid i gynnwys manyleb Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

7. Rhaid bod gan y fanyleb Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant y cynnwys a nodir yn Atodiad A.

Cynllun asesu

8. Caiff cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant ei asesu fel a ganlyn:

   8.1 60% asesiad mewnol sy'n cynnwys tasgau, aseiniadau a chasglu tystiolaeth;

   8.2 40% asesiad allanol, sy'n cynnwys prosiect.

9. Rhaid i'r fanyleb ddisgrifio a meintioli'r dystiolaeth asesu y dylid ei chyflwyno.

10. Rhaid i'r holl asesiadau ymdrin â'r cynnwys pwnc yn Atodiad A.

11. Rhaid i'r meini prawf marcio ddangos sut mae pob asesiad yn cysylltu â'r amcanion asesu.

12. Rhaid i gyfleoedd asesu ar gyfer Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant fod ar gael drwy gydol y flwyddyn.

13. Rhaid i fanyleb Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gynnwys manylion ynghylch cyfleoedd i ailgyflwyno.

Amcanion asesu

14. Wrth asesu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y fanyleb, rhaid targedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoliadau a nodir:

Amcan	**Gofynion**	**Pwysoliadau**
AA1	Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o ddamcaniaethau, technegau ac arferion arwain a rheoli yng nghyd-destunau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.	O leiaf 25%
AA2	Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau, technegau ac arferion arwain a rheoli mewn amrywiaeth o leoliadau gofal, dysgu, datblygiad a chwarae plant.	O leiaf 35%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o ddamcaniaethau, technegau ac arferion arwain a rheoli er mwyn myfyrio ar eu heffeithiolrwydd a sut y gallent wella ymarfer.	O leiaf 25%

<u>Angen sail resymegol:</u> wrth gyflwyno'r fanyleb i'w chymeradwyo, gofynnir i'r corff dyfarnu ddarparu sail resymegol o ran sut mae pwysoliadau terfynol yr amcanion asesu wedi'u pennu, gan gynnwys p'un a fyddant yn cael eu gosod dros oes y cymhwyster neu'n amrywio fesul cyfres.

Deilliannau

15. Caiff dysgwyr sy'n cwblhau'r holl asesiadau gofynnol yn llwyddiannus dystysgrif. Caiff cyrhaeddiad dysgwyr ei raddio fel Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo

16. Wrth gyflwyno cymhwyster i Cymwysterau Cymru i'w gymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu'r canlynol:

16.1 dogfen fanyleb;

16.2 ystod gynrychioliadol o ddeunyddiau asesu enghreifftiol;

16.3 dogfen esboniadol (dogfen resymeg) yn amlinellu'r rhesymeg dros nodweddion dylunio allweddol y cymhwyster arfaethedig a'u cydnawsedd â chanfyddiadau'r *Adolygiad Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae*[5].

Gofynion rhesymeg

17. Diben y ddogfen resymeg yw cynorthwyo'r broses o adolygu a chymeradwyo cymhwyster, ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

18. Rhaid i'r ddogfen resymeg esbonio'r canlynol:

18.1 strwythur y cymhwyster, a'r rhesymau dros strwythuro'r cynnwys yn y ffordd honno;

18.2 sut y caiff tasgau eu datblygu a'u mireinio dros amser;

18.3 y strwythur asesu, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nifer yr asesiadau, eu pwysoliadau, y marciau sydd ar gael a hyd yr asesiadau;

18.4 argaeledd cyfleoedd asesu, a'r dull o sicrhau bod y cyfleoedd hynny ar gael drwy gydol y flwyddyn;

18.5 cynllun meini prawf marcio a sut y cânt eu defnyddio;

18.6 sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu cyd-destun Cymreig;

18.7 y prosesau a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymwysterau hyn mewn ffordd gyson ac i'r lefel briodol;

18.8 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys rhesymeg dros y ffiniau gradd arfaethedig ar lefel asesiadau a'r cymhwyster.

[5] http://qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/iechyd-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

Gofynion gweithredol

19. Rhaid i'r fanyleb a/neu'r wybodaeth ategol nodi'r gofynion gwybodaeth a chymhwysedd (pwnc ac asesu/sicrhau ansawdd) ar gyfer aseswyr, sicrhawyr ansawdd mewnol a sicrhawyr ansawdd allanol sy'n briodol i gymhwyster ar y lefel hon.

20. Rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys gwybodaeth benodol am ofynion gweithredol, gan gynnwys:

    20.1 cofrestriadau;

    19.1 sicrhau ansawdd;

    19.2 prosesau asesu allanol.

Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at: Ymholiadau Cymwysterau Cymru Adeilad Q2 Lôn Pencarn Parc Imperial Coedcernyw Casnewydd NP10 8AR Ymholiadau@cymwysteraucymru.org

Atodiad A - Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Mae'n rhaid i fanyleb Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gynnwys y cynnwys a'r deilliannau dysgu canlynol. Mae hyn yn cynrychioli 100% o gyfanswm cynnwys a deilliannau dysgu'r cymhwyster.

Meysydd Pwnc	
1. Hyrwyddo hawliau plant i ddarpariaeth, diogelwch a chyfranogaeth	1.1 Codau Ymarfer, fframweithiau deddfwriaethol a rheoleiddiol mewn perthynas â hyrwyddo hawliau plant. 1.2 Arddulliau, damcaniaethau a modelau arwain sy'n cefnogi ymarfer effeithiol ac arloesol. 1.3 Sut i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. 1.4 Sut i gynllunio ac arwain ymarfer sy'n cefnogi dulliau diogelu, ymyrryd a chyfranogi.
2. Damcaniaethau ac ymarfer ym maes arwain a rheoli gwasanaethau gofal plant	2.1 Y cyd-destun sefydliadol. 2.2 Pwysigrwydd rheolaeth ariannol i wasanaethau gofal plant cynaliadwy. 2.3 Sut i arwain newid a gwelliant drwy arloesi.
3. Arwain a rheoli perfformiad effeithiol	3.1 Sut i gefnogi cyfeiriad, nodau ac amcanion strategol. 3.2 Sut y gall datblygu gwybodaeth a sgiliau unigolion gefnogi ymarfer effeithiol. 3.3 Sut i ymrymuso, ysgogi ac ysbrydoli. 3.4 Sut i weithio gydag unigolion a thimau.